# Abladiad broncosgopig ag anwedd thermol ar gyfer emffysema llabed uchaf

12 Mehefin 2019

Dim ond fel rhan o astudiaeth ymchwil y gellir rhoi'r driniaeth hon, a hynny am nad oes tystiolaeth ddigonol ynghylch pa mor dda y mae'r driniaeth hon yn gweithio na pha mor ddiogel ydyw.

Clefyd cronig yr ysgyfaint yw emffysema. Mae'n achosi i waliau llwybrau anadlu bach yn yr ysgyfaint dorri i lawr. Mae hyn yn creu gofodau mawr sy'n cywasgu'r rhannau iach o'r ysgyfaint. Yn y driniaeth hon, caiff broncosgôp (tiwb gyda chamera ar y pen) ei fewnosod drwy'r geg neu'r trwyn ac i mewn i'r ysgyfaint. Mae'n cyflenwi anwedd thermol (stêm) sy'n dinistrio'r rhannau afiach o'r ysgyfaint, gan alluogi'r rhannau iach o'r ysgyfaint i ymledu a gweithio'n well.

Gall gwefan y GIG fod yn lle da i gael gwybod mwy. Mae gan arweiniad IechydTech NICE fwy o wybodaeth am driniaethau a sut rydym yn eu hasesu.

**A yw'r driniaeth hon yn addas i mi?**

Os cawsoch gynnig y driniaeth hon, dylai eich gweithwyr gofal iechyd proffesiynol drafod yr hyn y mae'n ei olygu, egluro'r astudiaeth ymchwil, a dweud wrthych am y risgiau a'r manteision. Dylent drafod eich opsiynau gyda chi, a gwrando'n ofalus ar eich barn a'ch pryderon. Gall eich teulu fod yn rhan o'r broses hefyd, os ydych yn dymuno. Dylai hyn oll ddigwydd cyn y byddwch yn cytuno (rhoi cydsyniad) i gael y driniaeth ac i fod yn rhan o'r astudiaeth. Dylech hefyd gael gwybod sut i gael rhagor o wybodaeth am y driniaeth. Darllenwch ragor am wneud penderfyniadau am eich gofal.

**Rhai cwestiynau i feddwl amdanynt**

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl? Pa mor debygol ydw i o'u cael?
- Beth yw'r risgiau neu'r sgîl-effeithiau? Pa mor debygol ydynt?



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.

- Beth fydd yn digwydd os na fydd y driniaeth yn gweithio neu os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth fydd yn digwydd os nad wyf eisiau'r driniaeth? A oes triniaethau eraill ar gael?

ISBN 978-1-4731-7969-1



© NICE 2019. All rights reserved. Subject to Notice of rights.